| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Prevent |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | Polisi Prevent |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | Y Grŵp Diogelu | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /**<br>Date Approved | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Grŵp Diogelu Mawrth 2023* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *26 Ebrill 23* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Amherthnasol* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Amherthnasol* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *25 Mai 2023* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *21 Mehefin 23* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | Mehefin 2024 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

## Polisi Prevent


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Dyletswydd Prevent | 4 |
| 3. Cwmpas | 4 |
| 4. Dull | 4 |
| 5. Amcanion Dyletswydd Prevent | 5 |
| 6. Gwerthoedd Prydeinig | 5 |
| 7. Cyfrifoldebau | 6 |
| 8. Proses Atgyfeirio | 7 |
| 9. Rhannu Gwybodaeth | 7 |
| 10. Hyfforddiant | 8 |
| 11. Hysbysiad Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau | 9 |

# Polisi Prevent

## 1. Cyflwyniad

1.1 Nod Coleg Cambria yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl ddysgwyr i'w galluogi i gyflawni eu llawn botensial ac i gael budd a mwynhad o'u cyfranogiad ym mywyd y Coleg. Mae'r gwerthoedd hyn hefyd wedi eu hymgorffori yng Nghynllun Strategol y Coleg.

1.2 Er mwyn cyflawni hyn, mae'r coleg yn cydnabod yr hawliau sylfaenol canlynol i'w holl ddysgwyr:

- Gael eu trin ag urddas a pharch
- Cael eu trin yn deg
- Cael anogaeth i gyrraedd eu llawn botensial

1.3 Mae Agenda Prevent y Llywodraeth yn 1 o 4 elfen CONTEST, strategaeth gwrthderfysgaeth y llywodraeth. Ei nod yw atal bobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

Strategaeth Prevent y Llywodraeth:

- ymateb i'r her ideolegol rydym yn ei hwynebu gan derfysgaeth ac agweddau o eithafiaeth, a'r bygythiad rydym yn ei wynebu gan y rhai sy'n hyrwyddo'r syniadau hyn
- darparu cymorth ymarferol i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol
- gweithio gydag ystod eang o sectorau (gan gynnwys addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, elusennau, ar-lein ac iechyd) lle mae risgiau o radicaleiddio y mae angen i ni ymdrin â nhw
- cwmpasu pob math o derfysgaeth, gan gynnwys eithafiaeth dde eithaf a rhai agweddau ar eithafiaeth ddi-drais.

1.4 Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Dyletswydd Prevent 2015) yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau penodedig, gan gynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion i sicrhau 'wrth roi eu swyddogaethau ar waith, eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth'. Cefnogir hyn yn rhagor gan ganllawiau Dyletswydd Prevent (Medi 2015) ar gyfer sefydliadau AB yng Nghymru a Lloegr a sefydliadau AU yng Nghymru a Lloegr (Medi 2015) yn y drefn honno.

1.5 Mae'r Polisi hwn yn amlinellu dull Coleg Cambria o sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf a Dyletswydd Prevent, ei ddull o ddelio â phryderon a godwyd yn ei gymuned, a'i gyfraniad at unrhyw ymateb aml-asiantaethol i bryderon a godwyd.

Mae pedair prif elfen i'r polisi:

- atal drwy systemau addysgu a chymorth bugeiliol
- gweithdrefnau ar gyfer nodi a rhoi gwybod am achosion neu achosion tybiedig
- cymorth i ddysgwyr a allai fod â syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg derfysgol
- darparu amgylchedd diogel i holl ddysgwyr yn y coleg.

1.6 Mae'r Coleg wedi datblygu diwylliant o ddiogelwch a pharch at ei fyfyrwyr, cydweithwyr, llywodraethwyr ac ymwelwyr. Fel rhan o'r ethos hwn, mae'r Coleg wedi ystyried Dyletswydd Prevent a phwysigrwydd cydweithio rhwng staff y coleg, awdurdodau lleol, yr heddlu, sefydliadau addysgol eraill, llunwyr polisi a darparwyr iechyd i nodi, canfod a diogelu pobl sy'n agored i niwed ym mhob rhan o'r sefydliad.

## 2. Dyletswydd Prevent

Mae'r Ddyletswydd Prevent yn ei gwneud yn ofynnol i'r Coleg i:

2.1 Weithio mewn partneriaeth ag eraill (staff, llywodraethwyr, yr awdurdod lleol, y bwrdd diogelu lleol, yr heddlu, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr proffesiynol Prevent ac ati) i sicrhau diogelwch myfyrwyr.

2.2 Asesu risg pob digwyddiad a gweithgaredd, oddi ar y safle ac ar y safle, a bod yn ymwybodol o unrhyw bosibilrwydd o ddod i gysylltiad â therfysgaeth neu ymwneud â therfysgaeth.

2.3 Darparu digon o ofal bugeiliol a chymorth llesiant i bob myfyriwr a'r defnydd o gyfleuster ar gyfer ffydd.

2.4 Bod â diogelwch TG effeithiol (gan gynnwys defnyddio Wifi) a pholisi defnyddwyr cyfrifol ar waith.

## 3. Cwmpas

3.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n dod i gysylltiad â Choleg Cambria, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Bob Dysgwr (gan gynnwys AB, Dysgu yn y Gwaith, AU, Oedolion yn y Gymuned, Dysgwyr Cyswllt Ysgolion a chlybiau a chymdeithasau lleisiau dysgwyr)
- Cydweithwyr
- Gwirfoddolwyr
- Llywodraethwyr
- Pob siaradwr gwadd allanol

3.2 Mae'n berthnasol i holl safleoedd y Coleg gan gynnwys:

- Canolfannau allgymorth (gan gynnwys y rhai ar safleoedd cyflogwyr)
- Is-gontractwyr (gan gynnwys rhaglenni hyfforddeiaeth, partneriaid cyflenwi)
- Meithrinfeydd a chlybiau gwyliau (ar y safle ac oddi ar y safle)

## 4. Dull

4.1 Sicrhau bod y Coleg yn rheoli'r risgiau yn y maes hwn mae Cynllun Gweithredu Dyletswydd Prevent yn ei le i alluogi'r Coleg i fonitro a rheoli risgiau yn barhaus ac ymdrin yn briodol â materion sy'n codi.

4.2 Bydd Cynllun Gweithredu Dyletswydd Prevent yn cael ei fonitro yn fisol gan Person Diogelu Dynodedig y Coleg a fydd yn darparu diweddariad tymhorol i

Grŵp Diogelu'r Coleg. Mae'r cynllun gweithredu yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i helpu i adnabod a chefnogi unigolion sydd efallai yn agored i niwed a/neu mewn risg ac mae'n gallu darparu goruchwyliaeth glir gan reolwyr o'r gofynion.

4.3 Mae'r Coleg yn ceisio nodi unigolion a allant fod yn agored i niwed a/neu mewn risg yn ei gymuned yn gynnar, boed yn gydweithiwr neu'n ddysgwr, ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth a llesiant priodol. Bydd Cyfrifoldebau'r Coleg o dan y Ddeddf yn cael eu rheoli i ddechrau drwy'r trefniadau diogelu presennol a nodir yn y Polisi hwn, a hefyd o fewn Polisi Diogelu'r Coleg.

## 5. <u>Amcanion Dyletswydd Prevent</u>

5.1 Mae'r coleg yn ceisio amddiffyn ei fyfyrwyr rhag negeseuon radicaleiddio ac eithafiaeth dreisgar gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai sy'n gysylltiedig ag ideoleg Islamaidd, y dde eithaf a symudiadau hawliau anifeiliaid eithafol.

5.2 Mae prevent yn digwydd cyn i unrhyw weithgaredd troseddol ddigwydd trwy gydnabod, cefnogi ac amddiffyn pobl a allai fod yn agored i radicaleiddio.

5.3 Cyflawnir hyn trwy:

- Ymgorffori Gwerthoedd Prydeinig yn y cwricwlwm
- Meithrin dealltwriaeth staff a myfyrwyr o'r materion a'u hyder i ddelio â nhw trwy ddatblygiad staff, tiwtorialau arbenigol, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu gyda chymunedau lleol a grwpiau ffydd
- Sicrhau diogelwch myfyrwyr a bod y Coleg yn rhydd o fwlio, aflonyddu a gwahaniaethu
- Rhoi cymorth i fyfyrwyr a allai fod mewn perygl, a ffynonellau priodol o gyngor ac arweiniad
- Sicrhau bod myfyrwyr a chydweithwyr yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth atal eithafiaeth dreisgar.

## 6. <u>Gwerthoedd Prydeinig</u>

6.1 Mae Dyletswydd Prevent yn nodi'r Gwerthoedd Prydeinig y disgwylir iddynt gael eu hymgorffori yng nghynnig y cwricwlwm ac yn ethos y Coleg, sef:-

- Democratiaeth
- Rheol Gyfreithiol
- Rhyddid yr Unigolyn
- Parchu'r naill a'r llall
- Goddefgarwch at rai sydd â gwahanol grefyddau a chredoau

6.2 Bydd Uwch Dîm Rheoli'r Coleg yn arwain y broses o ymgorffori'r Gwerthoedd Prydeinig, ynghyd â'r corff llywodraethu. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn sefydlu canllawiau a chamau i'w cymryd drwy weithrediad y Coleg i sicrhau bod pawb yn deall Gwerthoedd Prydeinig a'u bod rhan annatod o ddiwylliant y Coleg sy'n adlewyrchu Gwerthoedd y Coleg.

6.3 Cyflawnir hyn trwy:

- Hyrwyddo gwerthoedd craidd parch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cymdeithas ddemocrataidd, llais a chyfranogiad dysgwyr ledled y Coleg
- Meithrin dealltwriaeth staff a myfyrwyr o'r materion sy'n ymwneud ag eithafiaeth a'u hyder i ddelio â nhw
- Gweithio'n weithredol gydag ysgolion lleol, awdurdodau lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill i sicrhau bod holl staff y coleg yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol o dan Prevent fel nad yw pobl ifanc yn cael eu radicaleiddio gan asiantaethau allanol.

## 7 <u>Cyfrifoldebau</u>

**Bydd y Coleg yn:**

7.1 Sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'n bod yn gwrando arnynt, a'u bod yn gwybod at bwy y gallant fynd os ydynt yn poeni neu mewn anhawster.

7.2 Dynodi aelod o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, a fydd hefyd yn Bwynt Cyswllt Unigol ar gyfer Pryderon Prevent (SPOC). Pennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr (Person Diogelu Dynodedig) fydd yr aelod hynny a fydd yn sicrhau bod pob cydweithiwr a llywodraethwyr yn gwybod eu henw a'u swyddogaeth dan sylw.

7.3 Dynodi cydweithwyr sy'n uniongyrchol gyfrifol am reoli'r holl faterion sy'n ymwneud â phryderon ynglŷn â dysgwyr o ddydd i ddydd. Y Swyddogion Llesiant ar bob safle fydd y rhain.

7.4 Cyfeirio pob pryder neu honiad o gamdriniaeth yn brydlon i Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU).

7.5 Bydd y SPOC yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd amlasiantaethol /cyfarfodydd Panel Sianel o ran yr atgyfeiriad. Bydd y SPOC yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gydweithwyr yn cael eu briffio ar y rheoliadau a'r arfer a amlinellir yn y polisi hwn. Caiff y broses hon ei monitro gan y Grŵp Diogelu.

7.6 Bydd ceisiadau gan yr Heddlu/Gwasanaethau Diogelwch ynglŷn â dysgwyr unigol yng Ngholeg Cambria yn cael eu trin gan y SPOC yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

7.7 Cadw cofnodion cyfrinachol a diogel o'r holl atgyfeiriadau o'r fath. Cyfrifoldeb y SPOC yw sicrhau bod copïau o ffurflenni atgyfeirio perthnasol a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Coleg. Bydd cyfrinachedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a dim ond gyda'r rhai y mae angen iddynt wybod y bydd yr amheuon a'r ymchwiliadau'n cael eu rhannu. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu o dan arweiniad Heddlu Gwrthderfysgaeth Gogledd Cymru/Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru.

7.8 Cynnal asesiad risg (Creu Cymunedau Dysgu Diogel) a fydd yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i nodi a chefnogi unigolion a allai fod yn agored i niwed

a/neu mewn perygl a hefyd i ddarparu trosolwg clir gan reolwyr o’r gofynion. Caiff yr asesiad risg hwn ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

7.9 Sicrhau bod hyfforddiant digonol ar gael ar gyfer yr holl gydweithwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid a bod cofnodion yn cael eu cadw.

**Bydd cydweithwyr yn:**

7.10 Rhoi gwybod ar lafar yr un diwrnod i'r SPOC am unrhyw amheuon neu drwy ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Diogelu'r Coleg. Ni ddylai cydweithwyr holi’r dysgwr na chynnwys sylwadau mewn unrhyw ddatganiad ganddynt. Bydd cydweithwyr yn cael hyfforddiant addas i sicrhau bod hyn yn digwydd.

7.11 Cwblhau ffurflen Siaradwr Gwadd Allanol yn electronig 14 diwrnod cyn yr ymweliad neu’r cyflwyniad ar-lein.

## 8. <u>**Proses Atgyfeirio**</u>

8.1 Gall unrhyw gydweithiwr neu ddysgwr nodi pryderon am aelod arall o staff neu fyfyriwr sy'n agored i'r perygl o gael eu radicaleiddio neu gael eu denu at eithafiaeth dreisgar, yn seiliedig ar wybodaeth y maent wedi'i chael neu ymddygiad y maen nhw neu unigolyn arall wedi sylwi arno.

8.2 Mae'r Coleg yn credu ei bod yn bwysig rhannu'r pryderon hynny mewn amgylchedd diogel a chefnogol, lle gellir cynnig ymyrraeth briodol, os oes angen. Dylid atgyfeirio drwy'r broses Ddiogelu a fydd yn cael ei monitro gan y Swyddog Llesiant ar bob safle ac yna, os yw'n briodol, caiff ei drosglwyddo i'r SPOC.

8.3 Yna bydd y SPOC yn trafod y pryder gyda'r aelod o staff sy'n adrodd ac, os yw'n briodol, yn atgyfeirio at y Broses Sianelu (a hwylusir gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Lleol perthnasol) neu'n cael ei atgyfeirio am gymorth pellach gan y Tîm Diogelu yn y coleg.

8.4 Bydd y SPOC yn gwneud yr atgyfeiriad i’r asiantaeth statudol briodol. Bydd y SPOC yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd amlasiantaethol /cyfarfodydd Panel Sianel, ym mha fformat bynnag y gellir ei gynnal, naill ai'n bersonol neu'n rhithwir, mewn perthynas â'r atgyfeiriad.

8.5 Os oes pryder uniongyrchol ynglŷn â pherygl i fywyd neu niwed, y Broses Atgyfeirio gywir yw ffonio 999 ac yna'n hysbysu'r SPOC cyn gynted â phosibl.

## 9. <u>**Rhannu Gwybodaeth**</u>

9.1 Er bod gan y coleg ddyletswydd i gydymffurfio â’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), byddwn yn gweithredu’n unol â rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon at ddibenion diogelu a diogelu myfyrwyr sydd mewn perygl o niwed. Gall hyn gynnwys atgyfeiriad at Broses y Sianel, a / neu atgyfeiriad at Heddlu Gogledd Cymru (o dan delerau ei Gytundeb Rhannu Gwybodaeth).

9.2 Rhaid i gydweithwyr beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â myfyriwr, eu lles neu wybodaeth bersonol heb ganiatâd penodol i wneud hynny gan y Person Diogelu Dynodedig (DSP) neu Ddirprwy Berson Diogelu Dynodedig. Mae'r amod hwn yn cynnwys lle gall cydweithiwr gael cais am wybodaeth gan riant, gwarcheidwad neu'r heddlu. Mae'n ofynnol i'r heddlu ddarparu Ffurflen Gais Data Personol wedi'i chwblhau i'r coleg.

9.3 Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â rhannu unrhyw wybodaeth gyda thrydydd parti, bydd y Coleg yn cadw at ei bolisïau Diogelu Data sydd ar waith. Bydd cofnodion cyfrinachol o'r wybodaeth a rennir yn cael eu cadw gan SPOC y Coleg yn unol â chanllawiau o fewn polisïau'r Coleg. Ym mhob achos, bydd angen, cymesuredd, risg a, lle bynnag y bo modd, cydsyniad yr unigolyn (neu rieni yn achos plant dan 18 oed) yn allweddol wrth benderfynu a fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu.

## 10. <u>Hyfforddiant</u>

10.1 Bydd ein myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant a gwybodaeth reolaidd er mwyn eu hysbysu am agenda Prevent, a chodi eu hymwybyddiaeth ohoni, fel rhan o'u hyfforddiant diogelu gyda chefnogaeth diwtorial bwrpasol a gyflwynir ar draws Meysydd Cwricwlwm gan Anogwyr Cynnydd.

10.2 Bydd gwybodaeth am Agenda a Dyletswydd Prevent yn cael ei hyrwyddo i fyfyrwyr drwy ei chynnwys yn y canlynol:-

- Cynnig y cwricwlwm, cynllunio gwersi a chynlluniau gwaith
- Posteri diogelu
- Polisi a gweithdrefnau diogelu
- Gwybodaeth ymsefydlu ar-lein
- Sesiynau hyfforddi a datblygu

10.3 Bydd cydweithwyr yn cael arweiniad a hyfforddiant ymwybyddiaeth ar sut i ddelio gyda:-

- Deunydd ac ymddygiad amhriodol
- Datgeliadau gan ddysgwyr am ddod i gysylltiad â gweithredoedd, safbwyntiau neu ddeunyddiau eithafol
- Cael gafael ar ddeunydd eithafol ar-lein
- Pryderon rhieni neu gyfoedion
- Anoddefgarwch o wahaniaeth
- Safbwyntiau Gwrth-Orllewinol neu Wrth-Brydeinig
- Yr effaith ar y myfyriwr a'r Sefydliad AB

10.4 Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr holl gydweithwyr yn gyfarwydd ag agenda Prevent, wedi'u cefnogi gan ddarpariaeth hyfforddiant gloywi, gallu hyrwyddo Gwerthoedd Prydeinig, deall sut y gallant adnabod arferion ac ymddygiadau mewn myfyrwyr a chydweithwyr a bod yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd os ydynt yn bryderus. Bydd hyfforddiant yn orfodol drwy fodiwl e-ddysgu'r coleg sydd ar gael i'r holl gydweithwyr ei gwblhau a'i adnewyddu bob 3 blynedd. Cedwir cofnodion cwblhau gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

10.5 Bydd disgwyl i bartneriaid cyflwyno Dysgu yn y Gwaith gael hyfforddiant yn unol â chanllawiau'r coleg ac mae cydymffurfiaeth yn orfodol.

10.6 Mae Llywodraethwyr y Coleg yn cael eu diweddaru am faterion diogelu sy'n cynnwys agenda Prevent. Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan ragweithiol yn y Strategaeth Prevent ac yn derbyn hyfforddiant ac adroddiadau rheolaidd gan y Person Diogelu Dynodedig.

10.6 Bydd y Coleg yn cydnabod rôl y SPOC ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant ac yn sicrhau bod y SPOC yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd priodol.

## 11. **<u>Hysbysiad Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau</u>**

11.1 Colegau sy'n cael dyraniadau cyllid blynyddol gan yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) ar gyfer darparu addysg i fyfyrwyr 16 i 18 oed, neu unrhyw berson ifanc 19 i 25 oed sy'n destun Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal sydd angen cymorth ychwanegol sy'n costio dros £6,000, trwy'r cytundeb Amodau Ariannu i hysbysu'r ESFA am ddigwyddiadau Prevent difrifol

11.2 Mae'r prif faterion/atgyfeiriadau Prevent y mae angen hysbysu'r ESFA amdanynt yn cynnwys;

- Pan fo'r sefydliad, neu un o'i isgontractwyr yn destun ymchwiliad gan yr awdurdod lleol neu'r heddlu mewn cysylltiad â mater Prevent.
- Pan fo'r Coleg yn atgyfeirio unigolyn at ddibenion penderfynu a ddylai'r unigolyn hwnnw gael ei atgyfeirio at banel i gynnal asesiad o dan adran 36 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 o'r graddau y mae'r unigolyn hwnnw'n agored i niwed i gael eich denu i derfysgaeth

Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y DSP yn sicrhau ei fod yn hysbysu'r ESFA bod atgyfeiriad wedi'i wneud, drwy'r ymholiadau uniongyrchol: Enquiries.ESFA@education.gov.uk, fel y nodir.